## Mair Y Pasg

**Darllen Ioan 20:13**

Mae Mair yn dal i sefyll y tu allan i'r bedd yn wylo, a chwestiwn yr angylion iddi yw, 'Pam yr wyt ti'n wylo?' (Ioan 20:13) Ei hateb hi yw, 'Y maent wedi cymryd fy Arglwydd i ffwrdd, ac ni wn i lle y maent wedi ei roi i orwedd'. Dowch i ninnau ofyn pam fod Mair yn wylo? Mae'n wylo am ei bod wedi cael colled enfawr. Mae hi wedi colli'r dyn oedd wedi trawsnewid ei bywyd. Mae'n wylo am ei bod yn rhythu ar farwolaeth, a hynny'n golygu bod y cyfan wedi dod i ben. Mae hi'n teimlo mor fregus, mor wag, mor unig. Beth sy'n mynd drwy ei meddwl? Y ffordd y cafodd ei ladd? Yr hoelion, y gwaed, y goron ddrain, y gwawdio, y cernodio, y bonllefau a'r milwyr yn chwarae siawns wrth droed y groes? Y trywanu, a Pilat yn golchi'i ddwylo? Mor annynol y gall dyn fod tuag at ei gyd-ddyn; mor greulon, mor hunanol, mor ddichellgar.

Ar y Pasg, gofynnwn, 'Pam yr wyt ti'n wylo?' Chwiliwn am bob esgus i geisio osgoi ateb y cwestiwn. Rydyn ni wedi codi muriau preifatrwydd o'n cwmpas ac wedi gosod llenni o hunangynhaliaeth gan fynnu nad pobl emosiynol ydyn ni. Dydyn ni ddim mo'r teip sy'n colli dagrau, yn enwedig yn gyhoeddus. Ond mae edrych ar Mair, sy'n syllu ar ddiddymdra, yn taro tant yn ein bywydau ninnau hefyd. Edrych i ryw wagle rydyn ninnau o hyd.

Rwyf finnau'n wylo am fy mod, fel Mair, wedi colli pobl fu'n gyfrifol am fy nghodi ar fy nhraed. Rwyf finnau'n wylo am fy mod wedi fy nadrithio, wedi f'anafu a'm bradychu. Rwyf finnau'n wylo am fy mod yr hyn ydwyf. Rwy'n ymwybodol o'r ffordd yr wyf wedi trin eraill, wedi bod yn gas wrth eraill. Eu poenydio a'u hanafu.

Wrth i Mair droi ei chefn ar y bedd mae'n dechrau cynnal sgwrs â'r garddwr. Ond mae'n sylweddoli mai rhywun arall ydi hwn. A dyma'r un cwestiwn eto, 'Wraig, pam yr wyt ti'n wylo?' (20:15) Ond mae hwn yn ychwanegu, 'Pwy yr wyt yn ei geisio?' Cofiwch fod Mair yn wylo am ei bod wedi colli rhywun oedd mor annwyl iddi. Erbyn hyn, mae hi'n teimlo'n fregus, yn wan ac unig, ac y mae ei nerth wedi pallu. Am bwy mae'n chwilio? Iesu, sef yr hwn sydd wedi gorchfygu marwolaeth ac yn gallu trawsffurfio'r bregus a'r gwan a'r unig. Dim ond un gair a glywodd Mair, sef ei henw. Yn eich hiraeth, beth ydi'r peth mwyaf gwerthfawr fedrwch chi ei gael? Distawrwydd a dweud dim? Cyffyrddiad gofalus? Neu rywun yn siarad yn dyner â chi? Gair neu ddau? 'Mair'. Agorwyd ei llygaid ac mae'n edrych i fyw llygaid y Crist Byw.

Bellach mae'r dagrau'n wahanol. Os yw Iesu wedi dod o'r bedd, mae hi wedi dod o hyd i fywyd newydd. Gall freuddwydio am fyd lle mae creulondeb yn cael ei drawsnewid a dicter yn troi'n drugaredd.

Dyma ddyn a dynes yn yr ardd, a dyma'r darlun a gawn ym mhenodau cyntaf y Beibl, yn yr union le yr aeth pethau o chwith. A dyma'r ardd lle rhoddir pethau yn eu lle o'r newydd. Dyma'r aduniad rhwng dynoliaeth, y greadigaeth a Duw. Os nad ydi hyn yn mynd i wneud i chi golli dagrau o lawenydd, wnaiff dim byd arall.

**Myfyrdod pellach:**
Dychmygwch eich bod yn yr ardd gyda Mair.
Am beth fyddwch chi'n colli dagrau?

***Huw John Hughes***